

Dydd Gwener y Groglith

“... hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau.” (adn. 28)

Beth am ddarllen Mathew 26:27–28 ac yna myfyrio

Roedd dydd Gwener y Groglith yn ddiwrnod ingol i Iesu wrth iddo hongian ar y groes, ond yn ddiwrnod a ddaeth â newyddion da i ni. Ac wrth ystyried yr hyn a ddigwyddodd ar y diwrnod hwnnw, pa destun fyddai'n well na geiriau'r Iesu pan ddywedodd: “... hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod, a dywelltir dros lawer er maddeuant pechodau?”

Yn y Beibl, mae gwaed yn drosiad byw am farwolaeth arteithiol, aberthol. Mae'n grynhoad dramatig o aberth Iesu ar y groes dros bechodau'r byd. I'r rhai sydd â ffydd ynddo, mae ei waed yn werthfawr, yn glanhau ac yn adfywio. Yn deillio o system aberthu'r Hen Destament, mae delwedd o'r fath yn ein hatgoffa am gost ein hiachawdwriaeth, a'n bod wedi ein prynu am bris. Heb dywallt gwaed aberthol, does dim maddeuant pechodau. Mae gwaed Iesu yn cael ei 'dywallt' yn ddelwedd bwerus o hunanaberth ac yn dwyn i gof ddarlun Eiseia o was Duw (Eiseia 53:12). Mae i ni wir faddeuant yn ei waed. Fel y dywedodd Ralph Turnbull: “Mae'r ewylllys da a gyhoeddwyd yn efenfyl y Nadolig wedi'i drosglwyddo drwy'r etifeddiaeth 'yng Nghrist' a bellach wedi'i gadarnhau yn yr ewylllys olaf a geir yn Swper yr Arglwydd.”

Boed i ni oll, wedi derbyn maddeuant ac wedi'n hadnewyddu, yn ostyngedig ac yn ddiolchgar, ganu gyda William Williams:

*O ddeded pawb am rin y gwaed,
maddeuant llawn, maddeuant rhad;
dim achwyn mwy,
ond canu am glwy' Calfaria fryn.*

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eiseia 53:7–12; Eff. 1:3–10; Heb. 9:11–22

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut fydddech yn diolch am y bendithion a gawn yn a thrwy Grist?
2. Sut fydddech yn cymharu effeithiau gwaed yn yr hen gyfamod ac yn y cyfamod newydd?

Gweddi

O Dad, diolch i ti am anfon dy Fab i farw drosof ar y groes. Arglwydd Iesu, diolch i ti am roi dy fywyd drosof ar y groes. Ysbryd Glân, diolch i ti am wneud y cyfan mor fyw. Drindod Sanctaidd, pob anrhydedd a gogoniant a fo i ti am byth. Amen.